# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cofnodion (SJR(2)-03-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 9 Chwefror 2006
### Amser y cyfarfod: 1.30pm – 4.50pm
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Edwina Hart (gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Laura Anne Jones | Dwyrain De Cymru |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Emyr Roberts | Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfwyio |
| Linda Whittaker | Y Cyfarwyddwr Tai |
| Jo Jordan | Cyfarwyddwr yr Uned Diogelwch Cymunedol |
| Anne Stephenson | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Brendon Hilbourne | Y Gyfarwyddiaeth Dai |

| | |
|---|---|
| Francois Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Emma Arnell-Smith | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegau |
| Steve Craddock | Yr Uned Diogelwch Gymunedol |

## Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yw’n berthnasol) | Agenda |
|---|---|---|
| John Bader | Cynghorydd i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio | 5 |
| Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Giles York | Heddlu De Cymru | 9 |
| Yr Uwcharolygydd Reg Bevan | Tarian (Heddlu De Cymru) | 9 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor a’r cyhoedd.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Huw Lewis a Sandy Mewies wedi ymddiheuro. Roedd Lorraine Barrett yn dirprwyo ar ran Sandy Mewies.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.4 Mae cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papurau: SJR(2)-02-06 (min)

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog

Papur: SJR(2)-03-06(p.1) Atodiad

Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch cyhoeddiad diweddar yr Ysgrifennydd Cartref ynghylch ailddosbarthu canabis

Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at yr Adran Masnach a Diwydiant ynghylch gwasanaeth i roi cyngor wyneb-yn-wyneb i bobl ynghylch dyledion

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch y trafodaethau sy'n parhau rhwng y Comisiwn Coedwigaeth a'r awdurdodau lleol ar ryddhau tir ar gyfer tai

Cytunodd y Gweinidog i ystyried y data penodol ynghylch y niferoedd sy'n camddefnyddio crac-cocên yng Nghymru ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog i ymgynghori â'r Swyddfa Gartref ynghylch yr amserlen ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig i ad-drefnu'r Gwasanaeth Prawf

Cytunodd y Gweinidog i baratoi nodyn ar gyfer y Pwyllgor maes o law ynghylch anghenion gweithwyr mudol a digartrefedd

Cytunodd y Gweinidog i roi ystyried y diffiniad o ran polisïau'r Awdurdodau Lleol o ran dyrannu cyllidebau heb eu neilltuo ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac i ddosbarthu'r ffigurau i'r Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog i godi'r mater yn ymwneud â'r grant Cyfleusterau i'r Anabl a nodwyd yng Ngham Gweithredu 02.07 gyda CLlLC yn ei chyfarfod ar 15.02.06

Cytunodd y Gweinidog i anfon at y Pwyllgor ynghylch dyfodol y Gronfa Adfywio Ffisegol

Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyflwyniad ar NOMS yn ystod tymor yr haf

## Eitem 4: Tlodi Tanwydd

Papur: SJR(2)-03-06(p.2)

Camau i’w Cymryd

Cytunodd y Gweinidog i drafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch ymestyn y cynllun taliadau tanwydd ar gyfer pobl anabl

## Eitem 5: Gwella’r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy a’u Hansawdd

Papur: SJR(2)-03-06(p.3) Atodiad

Camau i’w Cymryd

Cytunodd y Gweinidog i ystyried asesiadau effaith yng nghyswllt trosglwyddo stoc tai ac eiddo ar gyfer cynlluniau rhentu ac i adrodd yn ôl i’r Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor ar y cynllun Cymorth Prynu wedi i’w thrafodaethau ddod i ben

Cytunodd y Gweinidog i baratoi nodyn byr i’r Pwyllgor ynghylch y cynllun rhannu ecwiti

Cytunodd y Gweinidog i baratoi nodyn i’r Pwyllgor ynghylch y defnydd a wneir o’r incwm a gynhyrchir gan gynlluniau LCC

Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu i’r Pwyllgor ymwelid â phrosiect adfywio yn Nhredegar Newydd

## Eitem 6: Datblygu Cynaliadwy

Papur: SJR(2)-0306(p.4)

Camau i’w Cymryd

Cytunodd y Gweinidog i ystyried cysylltiadau ac ystadegau strategol yn yr adroddiad nesaf ar ddatblygu cynaliadwy i’r Pwyllgor

## Eitem 7: Adroddiad ar Gyfle Cyfartal 2004-05

Papur: SJR(2)-03-06(p.5)

Camau i’w Cymryd

Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i’r Pwyllgor am y datblygiadau diweddaraf o ran Iaith Pawb

## Eitem 8: Ymgyrch Tarian

Croesawodd y Cadeirydd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Giles York a’r Uwcharolygydd Reg Bevan o Heddlu De Cymru. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Ymgyrch Tarian.

## Eitem 9: Is-ddeddfwriaeth

Papur: SJR(2)-03-06(p.6) Atodiad 1, 2

Nodwyd y papur.